**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

## PAPUR GWYN DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: CADERNID AC ADNEWYDDIAD

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân a Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, a gwahodd yr aelodau i lunio ymateb.

## Cefndir

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn o'r enw *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*. Mae'r Papur Gwyn yn ddatganiad o fwriad ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Papur Gwyn yn cymryd lle Bil Llywodraeth Leol (Cymru) y Llywodraeth Cymru flaenorol, sef darn o ddeddfwriaeth ddrafft a oedd wedi cynnig ad-drefniad strwythurol o lywodraeth leol. Gan newid cyfeiriad polisi, mae'r Papur Gwyn o blaid cydweithio'n helaeth yn rhanbarthol, gyda chefnogaeth yr awdurdodau lleol unedol, yn hytrach nag ad-drefnu strwythurol.

3 Mae'r Papur Gwyn yn atgyfnerthu rôl a phwysigrwydd llywodraeth leol yng Nghymru. Tra'n cynnig y cyfleuster ar gyfer uno gwirfoddol rhwng cynghorau, nid oes bwriad i orfodi uno na mynd ynglŷn â'r opsiwn o ad-drefnu llywodraeth leol yn ei grynswth.

4 Mae'r papur yn nodi'r rhesymeg dros 'ranbarthiaeth' (*regionalism*), ac yn rhestru cyfres o brofion ar gyfer gwerthuso'r posibilrwydd o weithio rhagor yn rhanbarthol. Yna, mae'r papur yn rhestru cyfres o feysydd gweithio strategol a swyddogaethol lle byddai angen math o weithio rhanbarthol, a chyfres o feysydd strategol a swyddogaethol lle dylid archwilio'r posibilrwydd o weithio'n rhanbarthol.

5 Mae papur yn archwilio pa ardaloedd daearyddol neu 'batrymau daearyddol' y dylid eu gosod ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, a'r opsiynau dros faint o weithio rhanbarthol gorfodol y dylai'r Llywodraeth ei orchymyn. Mae'r papur yn ffafrio model pryd y byddai 'patrwm' rhanbarthol yn cael ei ragnodi ar gyfer rhai swyddogaethau, megis datblygu economaidd, a phryd y byddai fframwaith yn cael ei osod ar gyfer materion eraill, gyda dewis o ffiniau rhanbarthol a chyfuniadau o gyrff cyhoeddus ar gyfer materion eraill, megis amddiffyn y cyhoedd.

6 Yna, mae'r papur yn mynd yn ei flaen i edrych ar yr heriau o ran cyllid, gweithlu a llywodraethu sy'n gysylltiedig â gweithio'n rhanbarthol a chydweithio. Mae'n gosod yr opsiwn o 'gyd-bwyllgor llywodraethu fel amrywiad ar fodel hirsefydlog y cyd-bwyllgor.

7 Yn y darnau canol a thua'r diwedd yn y Papur Gwyn, ceir cynigion i:-

- ddiddymu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, sy'n nodi'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ar gyfer gwella a pherfformiad, a rheoleiddio hynny

- diwygio'r trefniadau llywodraethu a chyllido ar gyfer awdurdodau tân ac achub

- y modelau llywodraethu ar gyfer cynghorau, rolau cynghorwyr a democratiaeth leol

- rôl a gwerth cynghorau cymuned

- diwygio etholiadol, gan gynnwys yr oedran isaf i bleidleisio, mynediad digidol at gofrestru etholiadol a phleidleisio, trefniadau hyblyg ar gyfer pleidleisio, a mabwysiadu, yn lleol, y system un bleidlais drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau lleol.

8 Yn adran 4.3.2 - 4.3.5, mae'r Papur Gwyn yn datgan y canlynol ar gyfer awdurdodau tân ac achub.

*"4.3.2 Mae gan wasanaethau tân ac achub yng Nghymru hanes o gyflawni. Maent wedi lleihau nifer y tanau a nifer y marwolaethau ac anafiadau o achos tân dros 50% ers datganoli'r cyfrifoldeb iddynt yn 2004. Mae ganddynt hanes hir o weithio'n rhanbarthol hefyd, gan weithredu felly ers 1996. Yn hynny o beth, maent eisoes yn enghraifft o'r dull eang y mae'r Papur Gwyn hwn yn ei gynnig ar gyfer gwasanaethau Awdurdod Lleol eraill.*

*4.3.3 Fodd bynnag, nid yw trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub yn sicrhau digon o atebolrwydd, er enghraifft, nid yw arweinwyr Cyngor ac aelodau cabinet yn aelodau gan amlaf. Hefyd, nid yw swyddogaethau gweithredol a swyddogaethau craffu wedi'u gwahanu a chaiff cyllidebau eu gosod heb unrhyw her neu reolaeth allanol ffurfiol.*

*4.3.4 I unioni hyn ac i sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub yn cael eu hintegreiddio'n briodol â gwasanaethau rhanbarthol eraill, cynigir bod Awdurdodau Tân ac Achub yn newid eu trefniadau llywodraethu fel bod eu haelodaeth yn debyg i aelodaeth Cyd-bwyllgorau Llywodraethu, a bod cyllidebau'n cael eu pennu'n gyfunol trwy gytundeb. Ni fyddai hyn yn newid rôl, nifer na ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub, na'u bodolaeth fel sefydliadau ar wahân sydd â'r grym i gyflogi staff, gwario arian a chyflawni swyddogaethau ar eu liwt eu hunain.*

*4.3.5 Fel rhan o'r Bil newydd, cynigir na fydd Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn gymwys bellach i Awdurdodau Tân ac Achub o'r un dyddiad ag Awdurdodau Lleol. Ni fyddant trefniadau gwella a pherfformiad newydd sydd wedi'u hamlinellu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn berthnasol iddynt. Cynhelir ymgynghoriad llawn maes o law ar y trefniadau llywodraethu, cyllido a rheoli perfformiad newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub."*

9 Nid yw'r adran sy'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yn cynnwys cwestiwn penodol i ymgynghori yn ei gylch, yn wahanol i adrannau eraill o'r Papur Gwyn. Bydd yr Aelodau'n nodi nad oes manylion ystyrlon, a gellid tybio y daw'r rheini yn yr ymgynghoriad llawn y cyfeirir ato yn adran 4.3.5 o'r Papur Gwyn (paragraff 8 uchod). Awgrymir cyfeirio yn ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad at y diffyg manylion yma, er nad oes cwestiwn penodol yn ei gylch.

10 Mae’r Papur Gwyn yn cario drosodd, o’r Bil cynharach, y cynnig i gyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol fel pŵer cyfreithiol galluogi ar gyfer awdurdodau lleol.

11 Daw’r ymgynghoriad i ben ar 11 Ebrill. Gofynnir cyfres o gwestiynau i ymgynghori yn eu cylch mewn atodiad i’r Papur Gwyn. Nid yw llawer ohonynt berthnasol yn uniongyrchol i’r awdurdodau tân ac achub.

12 Gwahoddir yr Awdurdod i drafod y Papur Gwyn ac i arwain ymateb i’w gwblhau gan y Prif Swyddog Tân a’r Clerc mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd.

**Argymhelliad**

13 Bod yr Aelodau’n dirprwyo, i’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd, y dasg o gymeradwyo’r ymateb i’r ymgynghoriad.